

## Diwrnod Cymunedol Criccieth 23 09 2017

Trefnwyd Diwrnod Cymunedol gan Gyngor Tref Criccieth dydd Sadwrn 23 Medi yn y Neuadd Goffa a fynychwyd gan gannoedd o drigolion y dref ac ymwelwyr. Mae'r Gyngor Tref yn arwain ar greu Cynllun Cymunedol Criccieth er mwyn gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y dref. Roedd y diwrnod yn gyfle gwych i fedru arddangos syniadau a chynlluniau drafft sydd wedi'u paratoi gan bensaer ac i bawb gael dweud eu dweud, gan gynnwys derbyn syniadau eraill ar gyfer y Cynllun. Cafwyd cyfle i rhoi sylwadau ar yr arddangosfa ac hefyd i gwblhau a phostio holiadur. Croesawyd pawb gan Gadeirydd y Cyngor, y Cyng Sian Williams ac esboniodd mai *"gweithio mewn partneriaeth gyda thrigolion y dref a grŵpiau cymunedol a busnesau lleol yw dymuniad y Cyngor gyda'r nôd o wneud Criccieth yn le hyd yn oed gwell i fyw ac ymweld ag ef."* Diolchodd am y nawdd gan Grŵp Cynefin, Hafod y Gêst i gynnal y diwrnod, ac hefyd i Harlech Foods, Caffi Idris, cigydd K E Taylor a Hufenfa De Arfon am gyfrannu tuag at y lluniaeth ac i bawb am eu cefnogaeth.

Agorwyd y drysau i bawb o bob oedran a chafwyd adloniant hwyliog i blant gan y cyflwynydd teledu adnabyddus Anni Llŷn. Braff oedd cael syniadau ganddynt am bethau cyffrous i'w datblygu, gan gynnwys hufen iâ blas Criccieth!

Roedd hefyd yn gyfle gwych i ddod â'r holl gymdeithasau/clybiau at eu gilydd i arddangos y bwrlwm o weithgaredd sy'n mynd ymlaen yn y dref. Cafodd y stondinwyr sylwadau cadarnhaol iawn a nifer wedi derbyn cefnogaeth o'r newydd.

Dyweddodd y Cyng Eirwyn Williams, sy'n cynrychioli y dref ar Gyngor Gwynedd: *"Roedd yn rhyfeddol gweld y gymuned yn dod at ei gilydd ac i gael gymaint o awgrymiadau positif ar sut i wella bywyd a lles trigolion y dref. Cefais i a nifer o gynghorwyr y Dref sylwadau o gonsyrn am y toriadau a'r effaith ar wasanaethau"*

Y cam nesaf yw asesu'r sylwadau a'r ymatebion i'r holiadur ac i baratoi adroddiad a fydd yn gosod y llwybr ar gyfer y dyfodol. Roedd y diwrnod yn un hynod lwyddiannus.

DIWEDD